Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod y Bwrdd
4 Medi 2013

Teitl y Papur	**Rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd – briffio blynyddol i'r bwrdd**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B (O) 32.13**
Y Papur wedi'i Baratoi gan:	Noddwr: Trefor Owen Awdur: Jeremy Parr

Pwrpas y Papur:	**Trafodaeth / Gwybodaeth**
Argymhelliad:	Nodi nodweddion allweddol y rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys y gyllideb, y mathau o weithgareddau y mae'n eu hariannu, a sut y caiff y gweithgareddau eu blaenoriaethu a'u rhaglennu ar gyfer eu cyflawni. Bydd cyflwyniad i ategu'r papur hwn yng nghyfarfod y Bwrdd ar 4 Medi.
Penderfyniad Angenrheidiol:	Amherthnasol

Effaith: Sylwer – mae'n bosibl na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r testun	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Rydym yn buddsoddi'r gyllideb gyfalaf rheoli perygl llifogydd (RhPLl) er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd i bobl yng Nghymru. Gwnawn hyn gan roi pob ystyriaeth i'r amgylchedd, gan chwilio i'r graddau mwyaf posibl am opsiynau sy'n ffafriol i'r amgylchedd sy'n dod â nifer o fuddion. Os byddwn yn cael effaith anffafriol ar yr amgylchedd e.e. drwy adeiladu, byddwn yn lliniaru'r effaith hon, er enghraifft, drwy ddarparu cynefin ar gyfer mudo mor agos â phosibl i'r safle. **Effaith ar yr Economi**: Mae rheoli perygl llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi, gan ddarparu swyddi yn y cyfnod dylunio ac adeiladu, a lleihau effaith llifogydd (a'u cost) ar fusnesau, seilwaith ac adeiladau. **Effaith ar y Gymuned**: Mae ymyriadau rheoli perygl llifogydd yn cael effaith gadarnhaol gan mwyaf ar gymunedau, drwy leihau perygl llifogydd. Gellir cael effeithiau negyddol lleol e.e. sŵn ac aflonyddu yn y cyfnod adeiladu, neu effeithiau gweledol o amddiffynfeydd newydd, ond mae'r rhain yn cael eu gwrthbwyso gan y buddion i raddau helaeth iawn. **Effaith ar Wybodaeth**: Byddwn yn ceisio defnyddio dulliau newydd a thechnoleg newydd lle y maent yn brofedig, yn briodol ac yn fanteisiol o ran cost.

Mater

1. Mae Rheoli Perygl Llifogydd (RhPLl) yn weithgarwch o bwys gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'r rhaglen gyfalaf RhPLl yn gyfran sylweddol o gyllideb flynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn 2013/14, cyllideb y rhaglen gyfalaf RhPLl yw £17.6 miliwn, tua 10% o gyfanswm cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bwysig bod y Bwrdd yn deall sut, ym mhle a pham y mae cyllideb y rhaglen gyfalaf RhPLl yn cael ei buddsoddi.

Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn egluro rhai o brif egwyddorion y rhaglen gyfalaf RhPLl. Byddwn yn ymhelaethu ar y rhain yn y cyflwyniad i'r Bwrdd ar 4 Medi 2013.

Cefndir

3. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni tair rôl yn ei waith ar reoli perygl llifogydd, fel Gweithredwr, Rheoleiddiwr a Chynghorydd. Fel Gweithredwr, mae gennym bwerau o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 i reoli perygl llifogydd o'r môr neu o brif afon os ydym yn credu bod hynny'n ddymunol. Gall hyn gynnwys: adeiladu amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd neu gynnal rhai presennol; gweithredu gweithfeydd presennol fel llifddorau, a darparu system rhybuddio rhag llifogydd.

4. Pwerau caniataol yw'r rhain, ac mae hyn yn golygu ein bod yn arfer disgresiwn ynghylch ble, pa bryd a sut y byddwn yn gweithredu. Rydym yn arfer y disgresiwn hwnnw ar sail risg, gan roi blaenoriaeth i fannau lle y mae'r perygl mwyaf o lifogydd yng Nghymru. Wrth weithredu fel hyn, byddwn yn dilyn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

5. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu o gyllidebau refeniw. Bydd rhai ohonynt, gan gynnwys gwaith i adeiladu amddiffynfeydd newydd neu adnewyddu rhai presennol, yn cael eu hariannu o gyllideb y rhaglen gyfalaf RhPLl. Yn y cyflwyniad byddwn yn dangos enghreifftiau o'r gwaith, sut y caiff ei flaenoriaethu a rhai o'r heriau a chyfleoedd sydd o'n blaen.

6. Mae Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (RhPLlC) yn cyflawni rôl statudol drwy ganiatáu rhaglen gyfalaf RhPLl Cyfoeth Naturiol Cymru, a gwnaiff hyn yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd RhPLlC yn cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ar ei gynigion ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau rheoli perygl llifogydd.

Y Camau Nesaf

7. Rydym yn bwriadu briffio'r Bwrdd bob blwyddyn ar y rhaglen gyfalaf RhPLl fel y gall y Bwrdd roi sylwadau ynghylch sut ac ym mhle y mae'r gyllideb yn cael ei buddsoddi, a hefyd fel y gellir trafod heriau a chyfleoedd.

Risgiau

8. Mae risgiau ac ansicrwydd yn y rhaglen gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chael rhagolygon digonol o gyllidebau'r dyfodol er mwyn gallu rheoli'r rhaglen yn y ffordd fwyaf effeithlon, gan fod prosiectau adeiladu'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd fel arfer.

9. Ceir risgiau ar lefel prosiectau sy'n ymwneud yn bennaf â'r ansicrwydd ynglŷn â phrosiectau adeiladu mawr. Mae profiad helaeth o reoli risgiau gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru a hanes o lwyddiant wrth gwblhau prosiectau'n unol â'r gyllideb a'r amserlen.

Goblygiadau Ariannol

10. Mae'r rhaglen RhPLl yn gyfran sylweddol o gyfanswm cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn bwysig iawn i enw da Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

11. Mae heriau ariannol o'n blaen gan gynnwys yr her o sicrhau cyllidebau cyfalaf a refeniw digonol i reoli perygl llifogydd ar lefelau priodol.

Cyfathrebu

12. Mae sianeli cyfathrebu (a rheoli) da ar gael i hysbysu'r prif randdeiliaid am y rhaglen gyfalaf RhPLl. Byddwn yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd drwy ein gwefan, wrth i ni ddatblygu cyfleusterau'r wefan.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

13. Nid yw hyn yn berthnasol i'r papur.